



Nid crefydd oer ac allanol yw Cristnogaeth, ond dod i berthynas gyda Duw trwy ffydd yn Iesu Grist, ei Fab. Dyma'r bywyd gorau i fyw yn ein byd oherwydd i bawb sy'n trystio yn Iesu, mae Duw yn rhoi bywyd newydd, maddeuant pechodau, heddwch, llawenydd a hefyd berthynas gyda Duw sy'n ymestyn i dragwyddoldeb.

Efallai y bydd yn help i ti gael papur a beiro wrth law i gymryd nodiadau. Cyn darllen, gweddïa y bydd Duw'n siarad â thi ac yn dy helpu i ddeall ei Air, ac y bydd Ef yn defnyddio'r Beibl i newid dy fywyd. Ar ddiwedd pob astudiaeth mae'n bwysig iawn dy fod yn gweddïo ac yn siarad gyda Duw am beth rwyf ti wedi ei ddysgu a'r pethau rwyf ti eisïau eu newid yn dy fywyd di.

Yn y rhan gyntaf o'r cynllun darllen hwn byddwn ni'n edrych ar wahanol agweddau o ddod i adnabod Iesu Grist.

DIWRNOD 1: ADNABOD YR UN SY'N RHOI BYWYD TRAGWYDDOL

Darllena Ioan 17:1-5

- Beth yw perthynas Iesu gyda Duw y Tad (ad. 1)?
- Beth sydd gan Iesu'r awdurdod i'w roi (ad. 2)?
- Sut mae Iesu'n diffinio 'bywyd tragwyddol' (ad. 3)?

Arglwydd, diolch bod gan Iesu'r awdurdod i roi bywyd tragwyddol i ni, a'n bod ni'n medru dod i mewn i berthynas gyda Thi drwyddo Fe. Amen.

DIWRNOD 2: ADNABOD MAB Y DYN, Y BRENNIN

Darllena Mathew 16:13-18

- Ble mae'r sgwrs yma rhwng Iesu a'i ddisgyblion yn digwydd?
- Beth yw'r cwestiwn pwysig mae Iesu'n ei ofyn yn adnod 13?
- Roedd Iesu yn cyfeirio yn rheolaidd ato'i hun fel 'Mab y Dyn'. Pam? Edrycha ar Daniel 7:13-14.
- Beth yw ateb y disgyblion yn adnod 14?
- Doedd y bobl heb ddeall pwy yw Iesu. Pa fath o syniadau sydd gan dy ffrindiau di am Iesu?



Arglwydd, diolch mai Iesu yw Mab y Dyn a bod ganddo deyrnas bydd yn para am byth. Helpa ni i ddangos i bobl eraill pwy yw Iesu go iawn, ac i fyw iddo fe gan gofio mai Fe yw'r Brenin. Amen.

DIWRNOD 3: ADNABOD MAB DUW, Y MESEIA

Pan rydyn ni yn cyffesu mai Mab Duw, y Meseia, yw Iesu, yna y mae gennym gyfrifoldeb i ymateb iddo o ddifri.

Darllena Mathew 16:13-18 eto

- Beth yw'r cwestiwn pwysig mae Iesu'n ei ofyn yn adnod 15?
- Beth yw ateb Pedr yn adnod 16?
- Roedd Pedr wedi dod i weld pwy yw Iesu. Wyt ti? Sut wyt ti'n ateb y cwestiwn yma yn dy galon?

Arglwydd, diolch am ddangos i ni mai Iesu yw'r Meseia - dy Fab a anfoneist ti i'n hachub ni. Helpa ni i gredu ynddo, ac i ymddiried ynddo yn fwy bob dydd. Amen.

DIWRNOD 4: ADNABOD Y MESEIA A DDAETH I FARW DROSOM

Darllena Marc 8:27-35

- Roedd yn rhaid i Pedr a'r disgyblion ddeall beth oedd gwaith y Meseia, Mab y Duw byw. Rhestru beth yw gwaith Mab y Dyn yn ôl adnod 31.
- Sut mae Iesu yn disgrifio beth ddylai ein hymateb fod iddo (wrth ddod i'w adnabod) yn adnod 34-35?

Diolch, Arglwydd, bod Iesu wedi dod i ddiodeff a marw yn lle pechaduriaid. Helpa ni i fyw iddo Fe yn hytrach nag i ni ein hunain, waeth beth yw'r gost. Amen.

DIWRNOD 5: ADNABOD YR UN SY'N MADDAU PECHODAU

Maddeuant pechodau yw ein hangen mwyaf! Mae Duw yn maddau i ni trwy ffydd yn Iesu.

Darllena Marc 2:1-12

- Beth mae Iesu'n ei wneud yn adnod 2?
- Er bod y dyn yn methu cerdded, beth mae Iesu'n dweud yw ei angen mwyaf (ad. 5)?
- Ydi Iesu'n maddau pechodau'r dyn oherwydd ei grefydd, ei ymddygiad neu ei ffydd (ad. 5)?

O Dad, dangos i ni mai maddeuant pechodau yw ein hangen mwyaf ni a phawb 'dyn ni'n eu hadnabod. Diolch bod Iesu yn fodlon maddau i unrhyw un sy'n dod ato mewn ffydd. Amen.

DIWRNOD 6: ADNABOD YR UN SY'N EIN HADNABOD NI

Wrth i ni ymddiried yn Iesu a dod i'w adnabod, rydym yn ymddiried ym Mab Duw, sydd â'r nerth i weld ein meddyliau a hefyd yr awdurdod i faddau ein pechodau.

Darllena Mathew 9:1-8

- Ydi pawb yn hapus bod Iesu wedi maddau pechodau'r dyn?
- Beth mae adnod 3-4 yn dangos am rym a nerth Iesu?
- Beth mae Iesu yn ei wneud i ddangos bod ganddo'r awdurdod i faddau pechodau (ad. 6)?



Arglwydd, diolch dy fod yn fodlon maddau i ni a chael perthynas gyda ni er dy fod yn gwybod pob peth amdanom ni - hyd yn oed ein meddyliau. Helpa ni i ddod i dy nabod di yn well bob dydd. Amen.

DIWRNOD 7: ADNABOD YR ATHRO GORAU I

Pan dan ni yn dod i adnabod Iesu rydym yn dod i adnabod yr athro gorau, hynny yw Mab Duw, sy'n dysgu gwirioneddau ysbrydol gwerthfawr i ni.

Darllena Mathew 7:24-29

- Beth sydd yn rhaid ei wneud yn ychwanegol i wrando ar eiriau Iesu (ad. 24)?
- Os gwnawn hyn, sut mae Iesu yn ein disgrifio yn adnod 24?
- Beth yw'r darlun y mae Iesu yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r rhai sy'n ufuddhau iddo yn adnod 24-25?
- Sut wyt ti yn gallu bod yn ufudd i Iesu?

Arglwydd, helpa ni i fod fel y dyn call ac i adeiladu ein bywydau ni ar eiriau a dysgeidiaeth Iesu, gan wybod y byddwn ni'n ddiogel am mai ti yw'r athro gorau. Amen.

DIWRNOD 8: ADNABOD YR ATHRO GORAU II

Darllena Mathew 7:24-29 a Luc 6:47-49

- Pa fath o berson y mae Iesu'n ei ddisgrifio yn Mathew 7:26?
- Beth yw'r darlun y mae Iesu'n ei ddefnyddio i ddisgrifio'r person sy'n ymateb fel hyn i'w eiriau?
- Sut mae'r dorf yn ymateb i bregethu Iesu? Sut wyt ti'n ymateb?

Arglwydd, helpa ni i beidio bod fel y dyn ffôl ac anwybyddu geiriau Iesu gan feddwl ein bod ni'n gwybod yn well. Helpa ni i gydnabod awdurdod Iesu i'n dysgu fel gwnaeth y dorf. Amen.

DIWRNOD 9: ADNABOD YR UN DIEUOG I

Darllena Marc 15:1-15

- Noda'r tri chwestiwn y mae Pilat yn gofyn i'r Iesu ac am yr Iesu yn adnod 2, 4 a 14.
- Beth mae'r trydydd cwestiwn (ad. 14) yn dweud am gymeriad Iesu?
- Beth oedd agwedd y dorf tuag at Iesu yn adnod 3 a 13?

Arglwydd, diolch na wnaeth Iesu ddim erioed o'i le. Diolch dy fod ti'n gweld perffeithrwydd Iesu yn lle'n pechod ni pan dyn ni'n dod i adnabod Iesu Grist. Amen.

DIWRNOD 10: ADNABOD YR UN DIEUOG II

Roedd Iesu yn gwbl ddiuog, felly nid oedd yn haeddu mynd i'r groes. Roedd ganddo'r grym i ddod i lawr o'r groes ac i orchfygu ei elynion, ond dewisodd aros ar y groes a marw, yn ôl ewyllys a chariad Duw.

Darllena Marc 15:16-27

- Noda sut mae'r milwyr yn cam-drin a gwatwar Iesu yn adnod 15-20. A oedd Iesu yn haeddu'r fath driniaeth?
- Pwy a groeshoeliwyd gydag Iesu?
- Sut oedd yr arweinwyr crefyddol yn gwawdio Iesu adnod 29-32?



Arglwydd, diolch fod Iesu wedi bod yn fodlon dioddef gwaith a mynd i'r groes er ei fod yn hollol ddiuog, yn ôl dy ewyllys di. Diolch ei fod wedi dewis aros ar y groes a thalu'r gost yn llawn, er bod ganddo'r grym i ddod oddi ar y groes. Amen.

DIWRNOD 11: ADNABOD YR UN GAFODD EI WRTHOD

Pan rydyn ni yn dod i adnabod Iesu Grist, rydym yn dod i adnabod Mab dieuog Duw a ddioddefodd oherwydd ein pechodau ni. Trwy hyn, agorodd y ffordd i bechaduriaid gael maddeuant a dod i adnabod Duw.

Darllena Marc 15:28-39

- Beth ddaeth dros yr holl wlad am hanner dydd?
- Beth waeddodd Iesu ar y groes (ad. 34)? Dyma uchafbwynt ei ddioddefaint.
- Beth ddigwyddodd yn y deml? Beth yw arwyddocâd hyn?
- Beth ddywedodd y canwriad? Sut wyt ti'n ymateb i Iesu ar y groes?

Arglwydd, diolch fod Iesu wedi bod yn fodlon talu'r pris eithaf, gan hyd yn oed gael ei wrthod gennyt Ti dy hun, fel nad oes yn rhaid i ni gael ein gwrthod gennyt Ti. Diolch i'r llen rwygo fel prawf ei fod wedi gwneud hi'n bosib i bechaduriaid ddod mewn i dy bresenoldeb Di a chael perthynas gyda Thi. Amen.

DIWRNOD 12: ADNABOD IESU AM BYTH

Mae pob math o berson yn gallu dod i adnabod Iesu, y Brenin fydd yn teyrnasu am dragwyddoldeb.

Darllena Luc 23:39-43

- Beth yw agwedd y troseddwr cyntaf at Iesu (ad. 39)?
- Beth yw agwedd y troseddwr arall (ad. 40-41)? Beth mae e'n ei ddweud ynglŷn â chymeriad Iesu?
- Beth mae'r ail droseddwr yn gofyn i Iesu (ad. 42)? Beth yw ateb Iesu? Sut mae hyn yn galonddid i ni?

Arglwydd, diolch bod unrhyw un sy'n dod at Iesu yn cael ei dderbyn. Diolch y bydd Iesu'n teyrnasu am dragwyddoldeb ac ein bod yn gwybod y byddwn ni rhyw ddiwrnod ym mharadwys gyda Thi fel y lleidr ar y groes. Amen.

DIWRNOD 13: DISGWYL AM DEYRNAS DDUW

Darllena Marc 15:40-47

- Enwch y gwagedd oedd yn edrych ar y cyfan
- Pwy oedd yn ddigon dewr i ofyn am gorff Iesu?
- Beth oedd agwedd y dyn yma tuag at deyrnas Dduw?

Arglwydd, diolch ein bod yn rhan o dy deyrnas Di. Helpa ni i ildio mwy i ti fel Brenin bob dydd. Helpa ni i edrych ymlaen fwy a mwy at gael bod gyda Thi yn y nefoedd. Amen.

DIWRNOD 14: ADNABOD YR UN FU FARW

Dioddefodd Iesu farwolaeth go iawn oherwydd ein camweddau ni.

Darllena Marc 15:40-47 eto

- Pam y mae Pilat yn rhyfeddu?



- Beth wnaeth Joseff gyda chorff Iesu?
- Pa rai o'r gwragedd oedd yn gwylio claddu Iesu?

Diolch bod marwolaeth Iesu yn farwolaeth real ac yn ffaith hanesyddol a bod tystiolaeth llygad dystion gyda ni. Diolch iddo farw i ddelio â'n problem fwyaf ni, sef pechod, fel ein bod yn gallu dy adnabod di. Amen.

DIWRNOD 15: ADNABOD YR UN SYDD WEDI CONCRO MARWOLAETH

Erbyn diwedd Gwener y Groglith yr oedd dilynwyr Iesu yn ddiobaith. Yn eu meddyliau yr oedd y cyfan ar ben - yr oedd Iesu wedi marw.

Darllena Marc 16:1-8

- Pwy benderfynodd fynd i fedd Iesu a pham?
- Am beth oedden nhw'n poeni (ad. 3)?
- Beth oedden nhw'n disgwyl ei weld yn y bedd, ond beth oedd yna yn lle? Pa neges a roddwyd iddyn nhw?

Arglwydd, dyn ni'n diolch dy fod Ti'n feistr dros farwolaeth. Diolch bod Iesu wedi concro ein gelyn olaf (marwolaeth) wrth atgyfodi, ac nad oes yn rhaid i ni ofni marw, oherwydd mai mynd atat ti y byddwn ni. Amen.

DIWRNOD 16: ADNABOD YR UN a GYFLAWNODD GYNLLUN DUW

Darllena Marc 8:31, 10:33-34, 14:26-28

- Beth mae'r adnodau hyn yn ein dysgu am farwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist?

Darllena Mathew 28:5-8

- Sut mae atgyfodiad Iesu Grist yn rhoi hyder i ni?

Arglwydd, diolch i Iesu farw ac atgyfodi yn ôl dy gynllun di. Diolch fod yr atgyfodiad yn brawf i Iesu wneud popeth oedd ei angen er mwyn dod â ni yn ôl mewn i berthynas gyda Thi. Amen.

DIWRNOD 17: ADNABOD YR UN SYDD WEDI ATGYFODI

Mae atgyfodiad Iesu yn rhoi'r sicrwydd i ni nad ofer yw dod i adnabod Ef.

Darllena Rhufeiniaid 1:1-4 ac 1 Corinthiaid 15:13-20

- Beth mae'r atgyfodiad yn dweud wrthym am bwy yw Iesu (Rhuf. 1:1-4)?
- Pam bod yr atgyfodiad yn hanfodol i ni fel Cristnogion (1 Cor. 15:13-20)?

Arglwydd, diolch bod atgyfodiad Iesu yn profi ei fod yn Fab Duw, ac nad peth ofer neu ddibwrpas yw ein ffydd. Diolch bod gennym ni berthynas gyda Gwardwr sy'n fyw heddiw, a diolch y gallwn ni edrych ymlaen at ddydd pan gaiiff ein cyrff ni hefyd eu hatgyfodi. Amen.

Yn ail ran y cynllun darllen hwn rydym yn mynd i edrych ar rai enghreifftiau o bobl a ddaeth i adnabod Duw gan weld effaith perthynas gydag Iesu ar eu bywydau.

DIWRNOD 18: Hanna

Darllena 1 Samuel 1:1-11 ac 1 Samuel 3:1



- Beth oedd yn wyrthiol am enedigaeth Samuel (1 Sam. 1:1-5)?
- Beth oedd ymateb mam Samuel i hyn (1 Sam. 1:9-11)?
- Sut fywyd oedd gan y Samuel ifanc (1 Sam. 3:1)?

Diolch Arglwydd dy fod eisiau perthynas gyda ni a dy fod eisiau i ni ddod â'n holl broblemau atat ti. Diolch dy fod yn Dduw sydd yn clywed gweddiau ei bobl. Helpa ni i droi atat ti ym mhob sefyllfa gan ddilyn esiampl Hanna. Amen.

DIWRNOD 19: Samuel

Yr ydym yn dod i adnabod Duw pan rydym yn plygu i'w awdurdod wrth iddo ddatguddio ei hunan trwy ei Air.

Darllena 1 Samuel 3:1-11

- Er ei fod yn gwneud pethau crefyddol, sut oedd perthynas Samuel gyda'r Arglwydd (1 Sam. 3:7)?
- Sut mae Duw yn datguddio'i hun i Samuel (ad. 7-10)?
- Beth yw agwedd Samuel tuag at yr Arglwydd sy'n siarad gyda fe (ad. 10)?

Arglwydd, helpa ni i ddeall bod yn rhaid i ni ddod i dy adnabod di yn bersonol ac nad yw cael magwraeth Gristnogol neu fynd i'r capel yn ddigon. Datguddia dy hun i ni fel ein bod yn dod i dy adnabod Di go iawn. Helpa ni hefyd i ildio i awdurdod dy Air pan rwyd ti'n datguddio pethau newydd i ni. Amen.

DIWRNOD 20: Sacheus I

Roedd yr Israeliaid yn casáu'r casglwyr trethi am eu bod yn gweithio i'r Rhufeiniaid ac yn bobl anonest.

Darllena Luc 19:1-10

- Beth mae adnod 2 yn dweud wrthym am fywyd Sacheus?
- Beth mae adnod 7 yn dweud wrthym am agwedd y bobl tuag at Sacheus?
- Beth yw ymateb Iesu pan mae'n gweld Sacheus? Sut mae hyn yn gallu bod yn galondid i ni?

Diolch dy fod Ti yn Dduw sy'n llawn cariad ac sy'n edrych ar bobl gyda thrugaredd. Diolch fod dy drugaredd yn ymestyn atom ni, a'n bod yn gweld hynny yn y groes. Helpa ni i drin pobl eraill gyda thrugaredd yn ôl esiampl Iesu. Amen.

DIWRNOD 21: Sacheus II

Y mae pob math o bobl yn gallu dod i adnabod Iesu, dim ond iddynt gredu yn Iesu, a ddaeth 'i geisio ac achub y colledig'.

Darllena Luc 19:1-10

- Beth yw canlyniad dod i adnabod Iesu ar Sacheus? (ad. 8)
- Sut mae Iesu'n disgrifio ei waith yn adnod 10?

Arglwydd, diolch i Iesu ddod 'i geisio ac i achub y colledig' a'i fod yn derbyn unrhyw un sy'n credu ynddo Fe. Diolch dy fod yn ein newid ni ac yn rhoi bywyd newydd i ni pan dyn ni'n dod i dy adnabod di. Gwna ni yn fwy tebyg i Iesu bob dydd. Amen.



DIWRNOD 22: TIMOTHEUS I

Y mae hanes Timotheus yn dangos taw nid magwraeth Gristnogol sy'n ein gwneud yn Gristnogion, ond bod rhaid dod i drystio ac adnabod Iesu.

Darllena 2 Timotheus 1:1-5

- Pa fath o fagwraeth gafodd Timotheus?
- Pwy oedd mam a mam-gu Timotheus?
- Am beth y mae Paul (a ysgrifennodd 2 Timotheus) yn sicr sydd gan Timotheus?

Diolch i ti am Gristnogion sydd wedi ein pwyntio ni at Iesu a diolch am bob cyfle dyn ni wedi ei gael i ddysgu amdanat ti. Helpa ni i fod fel Lois ac Eunice ac i gymryd cyfleoedd i bwyntio pobl eraill fel ein teulu a'n ffrindiau at Iesu. Amen.

DIWRNOD 23: TIMOTHEUS II

Mae cael ein hargyhoeddi o wirionedd y Beibl yn holl bwysig wrth ddod i adnabod Iesu.

Darllena 2 Timotheus 3:12-17

- Gyda beth y mae Timotheus wedi bod yn gyfarwydd oddi ar ei blentyndod (ad. 15)?
- Beth mae adnod 14 yn dweud sy'n dangos nad yw dim ond gwybod yr Ysgrhythurau yn ddigon?

O Dad, dyn ni'n sylweddoli nad yw gwybod am y Beibl a beth mae'r Beibl yn ei ddysgu am Iesu yn ddigon. Argyhoedda ni o wirionedd dy Air fel y gwnes di gyda Timotheus. Helpa ni i weld drosom ni'n hunain fod dy air di yn wir, ac mai maddeuant pechodau a pherthynas gyda Thi yw'n hangen mwyaf, ac mai Iesu yw'r unig ffordd. Amen.

DIWRNOD 24: TIMOTHEUS III

Darllena 2 Timotheus 3:12-17 eto, a darllena 1 Pedr 1:23-25

- At beth y mae'r Ysgrhythur yn ein dwyn ac yn ein gwneud yn ddoeth (2 Tim. 3:15b)?
- Beth yw effaith Gair Duw ar y rhai sy'n adnabod Iesu (2 Tim. 3:16)?
- Beth yw'r gwahaniaeth mawr rhwng Gair Duw (yr Efengyl) a meidrolyn (1 Pedr 1:23-25)?

Diolch, O Dad am dy Air fydd yn para am byth. Diolch ei fod yn cynnwys popeth rydym ni ei angen er mwyn dod i dy adnabod di, i dyfu yn ein hadnabyddiaeth ohonot ti, a phopeth dyn ni angen ar gyfer byw bywyd sy'n dy blesio. Gwna dy air yn fwy gwerthfawr i ni a helpa ni i dreulio amser yn ei ddarllen. Amen.

DIWRNOD 25: PAUL I

Dyn a oedd yn erlid Cristnogion oedd Saul ond dyma drugaredd Iesu - yn torri i mewn i fywyd Saul hyd yn oed.

Darllena Actau 9:1-9

- Beth oedd agwedd Saul tuag Gristnogion (ad. 1-2)?
- Nodwch ei fwriad wrth fynd i weld yr archoffeiriad.
- Beth sy'n digwydd iddo ar y ffordd i Damascus?



→ Sut ydyn ni yn gallu cael hyder o hanes Paul?

Diolch dy fod Ti yn Dduw graston a llawn cariad sydd wedi gwneud ffordd i dy elynion di i ddod yn ffrindiau ac yn blant i ti. Diolch nad oes neb y tu hwnt i dy drugaredd a dy ras, a dy fod di yn gallu torri mewn i unrhyw sefyllfa. Amen.

DIWRNOD 26: PAUL II

Y mae pobl sy'n dod i adnabod Duw ac Iesu yn gweddïo ac yn dyheu am ddod i'w adnabod ef yn well.

Darllena Actau 9:10-22

- Beth yw agwedd Ananias tuag at Paul yn adnodau 13-14?
- Wyt ti'n meddwl am bobl sydd ddim yn adnabod Iesu Grist yn yr un ffordd weithiau? Yw hynny yn agwedd cywir?
- Beth sy'n newid ym mywyd Paul nawr ei fod yn adnabod Iesu? Beth mae'n ei dderbyn, a beth mae'n ei wneud?

Arglwydd, diolch am ddod â ni i dy adnabod trwy dy Fab Iesu Grist. Helpa ni i fod fel Paul, yn llawn hyder yn y newyddion da am Iesu Grist. Plis nertha ni i ddefnyddio'r cyfleoedd rwy'ti'n rhoi i ni i sôn am Iesu gyda'n teulu a'n ffrindiau.

DIWRNOD 27: PAUL III

Pan mae pobl yn dod i adnabod Iesu yna mae eu hagwedd tuag at eu gorffennol a'u dyfodol yn newid.

Darllena Philipiadaid 3:7-14

- Beth y mae Paul yn ei ddweud am ei hen ffordd o fyw (ad. 7-8)?
- Beth y mae Paul wedi ei gael trwy ffydd yn Iesu (ad. 9)?
- Beth yw uchelgais Paul nawr?
- Beth sydd fwyaf pwysig yn dy fywyd di?

Dad, diolch bod dy adnabod di yn bosibl trwy'r hyn mae Iesu Grist wedi ei wneud trosom. Helpa ni i ystyried ein hen ffordd o fyw yn sbwriel o'i gymharu â dy adnabod di. Rho ddyhead newydd i ni i fyw i ti gan ddyfalbarhau at y diwedd. Amen.

DIWRNOD 28: ADNABOD Y GOLEUNI

Y mae pawb sydd yn dod i adnabod Duw yn mwynhau perthynas gydag Ef.

Darllena 1 Ioan 1:5-2:6

- Beth mae adnod 1:5 yn ei ddweud am natur Duw?
- Pa air sy'n disgrifio'r berthynas rhwng Duw a'r Cristion yn 1:6?
- Beth sydd angen i ni i wneud pan rydyn ni'n pechu (1:9-10)?

Diolch bod dy adnabod Di yn golygu cael perthynas gyda Thi. Diolch ein bod yn medru mwynhau perthynas gyda Thi er dy fod yn Oleuni perffaith. Helpa ni i gydnabod a chyffesu ein pechodau wrthyt ti. Diolch dy fod yn addo maddau i ni a'n glanhau ohonynt. Amen.



DIWRNOD 29: RHODIO YN Y GOLEUNI

Y mae byw yn ffyddlon i Iesu a chadw gorchmynion Duw yn holl bwysig ac yn ffordd o ddangos ein cariad tuag at Iesu Grist oherwydd yr hyn mae ef wedi ei wneud trosom.

Darllena 1 Ioan 1:5-2:6 eto

- Beth yw'r prawf ein bod ni yn adnabod Duw (2:3)?
- Beth mae Duw yn dweud amdanom ni os nad ydym yn cadw ei orchmynion (2:4)?

Arglwydd, plis maddau i ni pan rydyn ni'n dy adael di i lawr. Diolch fod dy adnabod di yn golygu bywyd newydd a grym i fyw math newydd o fywyd. Helpa ni i fyw i ti ac i gadw dy orchmynion. Amen.

Os oes gen ti gwestiynau neu os wyt ti eisiau trafod mwy am yr hyn rwyd wedi'i ddarllen, beth am ofyn i dy rieni neu siarad gyda rhywun yn dy eglwys? Mae hefyd modd danfon cwestiynau i Llwybrau trwy'r ddolen ar dop ein gwefan, neu dros Facebook, Twitter ac Instagram - @Llwybrau.

